Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol

Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Cyhoeddir o dan adran 145 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Pennod / Cynnwys

1. Cyflwyniad	**1**
2. Lles	3
3. Mesur Lles	6
4. Mesur perfformiad	10
Atodiad A- Mapio canlyniadau lles, safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol a mesurau	16

Digital ISBN 978-1-4734-4194-1
© Hawlfraint y Goron
WG25383

1. Cyflwyniad

Cafodd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014 i ddod yn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gael yn:

http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/enacted.

Cyhoeddir y cod ymarfer hwn mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn y cod hwn. Nid yw adran 147 (Gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn gymwys i unrhyw ofynion a nodir yn y cod hwn.

At hynny, mae'n **rhaid** ai awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a nodir yma. Yn y cod ymarfer hwn a'r canllawiau statudol hyn, mynegir gofyniad fel "**rhaid**" neu "**rhaid ... beidio**". Mynegir canllawiau fel "caiff" neu "dylai/ni ddylai".

Mae'r cod ymarfer hwn yn gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd goblygiadau i gyrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol ac i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yng Nghymru.

Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi fframwaith ar gyfer mesur y cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud yn erbyn y dyletswyddau o dan y Ddeddf yn gyffredinol ac yn galluogi awdurdodau lleol i wella gwasanaethau yn barhaus. Mae'r cod ymarfer hwn yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Lles
- Mesur Lles:
  - Mesur lles yn genedlaethol
  - Mesur lles yn unigol
- Mesur perfformiad:
  - Safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol
  - Mesur y safonau ansawdd

Datblygwyd y cod ymarfer hwn mewn ymgynghoriad â phartneriaid a phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Dylid darllen y cod ymarfer hwn ochr yn ochr â'r codau ymarfer a gyhoeddir o dan adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Eiriolaeth

Rhaid i unigolyn deimlo ei fod yn bartner cydraff yn ei berthynas â gweithwyr proffesiynol. Mae'n agored i unrhyw unigolyn wahodd rhywun o'i ddweis i'w helpu igyfranogi'n llawn a mynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau. Gall y cymorth hwn gael ei ddarparu gan ffrindia rhywun, ei deulul neu rwydwaith cymorthehangach.

Mae'r cod ymarfer penodol ar eitiolaeth a dan Ran 10 o'r Ddeddf yn nodi'r swyddogarthau pan fydd yn **rhaid** i awdurdod lleol, mewn partneriarth â'r unigolyn, lunio barn ynglŷn â sut y gallai eiriolaeth gefnogi'r broses o ddyfarnu a sicrhau canlyniadau personol unigolyn; ynghyd â'r amgylchiadau pan fydd yn **rhaid** i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. **Rhaid** i weithwyr proffesiynol ac unigolion sicrhau bod barn ynglŷn â'r angen am eiriolaeth yn rhan annatod o'r dyletswyddau perthnasol o dan y cod hwn.

2. Lles

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i his-ddeddfwriaeth gysylltiedig yn canolbwyntio ar les, hawliau a chyfrifoldebau. Mae pobl, eu teuluoedd a'u cymunedau yn asedau cyfoethog ac maent wrth wraidd y fframwaith cyfreithiol hwn.

Gellir rhoi llais i bawb, boed yn oedolyn neu'n blentyn – cyfle – yr hawl – i gael ei glywed fel unigolyn, dinesydd, er mwyn llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arno a rheoli ei fywyd o ddydd i ddydd.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymagwedd tuag at ofal iechyd darbodus, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, peidio â gwneud niwed, ymateb cymesur a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng pobl a gweithwyr proffesiynol. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau, mae'n **rhaid** i bob partner gydweithio gan sicrhau bod pobl ynghanol eu gofal. Mae a wnelo â helpu pobl sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol i gydgynhyrchu atebion gyda phobl eu hunain.

Nodir ystyr lles mewn perthynas ag unigolyn y mae angen gofal a chymorth arno yn adran 2 o'r Ddeddf. Mae lles yn gysyniad eang sy'n ymwneud â phob agwedd ar fywyd unigolyn a bydd llawer o wasanaethau yn helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i sicrhau eu lles.

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hybu lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn gymwys i bob unigolyn a chorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac asiantaethau statudol eraill.

Mae'r cod ymarfer ar gyfer rhan 2 o'r Ddeddf yn nodi gofynion a osodir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau o dan adran 5 o'r Ddeddf.

Mae adran 8 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad mewn perthynas â lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Caiff y datganiad o ganlyniadau lles sydd i'w cyflawni ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Cynulliad pan weithredir y Ddeddf yn 2016. Mae'n **rhaid** i'r datganiad hwn nodi'r canlyniadau sydd i'w cyflawni o ran lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt a mesurau canlyniadau, y caiff y broses o gyflawni'r canlyniadau hynny ei hasesu drwy gyfeirio atynt.

Rhestrir y canlyniadau sydd i'w cyflawni isod. Mae gan bobl hawliau a chyfrifoldebau o ran cyflawni eu canlyniadau lles personol. Pan fydd pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn cydgynhyrchu eu canlyniadau lles personol gyda gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid, gall pobl ddisgwyl gyflawni canlyniadau lles sy'n adlewyrchu'r canlyniadau lles cenedlaethol canlynol:

Beth mae lles yn ei olygu	Canlyniadau lles cenedlaethol
Sicrhau Hawliau a hawlogaethau Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd	Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy lles Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy lles Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof
Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol	Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl
Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod	Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon
Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod	Gallaf ddysgu a datblygu i'm llawn botensial Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi
Cydberthnasau domestig, teuluol a phersonol	Rwy'n perthyn Rwy'n cyfrannu at gydberthnasau diogel ac iach ac yn eu mwynhau
Cyfraniad a wneir i gymdeithas	Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas
Lles cymdeithasol ac economaidd Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith	Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf Nid wyf yn byw mewn tlodi Caf gymorth i weithio Rwy'n cael yr help sydd ei angen arnaf i dyfu i fyny a bod yn annibynnol Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf
Addasrwydd llety	Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy lles

Bydd pobl am gyflawni canlyniadau lles sy'n bersonol iddynt hwy a'u hamgylchiadau unigol, ac efallai y bydd angen gofal a chymorth arnynt i'w helpu i sicrhau'r rhain. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol ystyried canlyniadau lles personol pobl a chydgynhyrchu atebion gyda phobl eu hunain.

Bydd y gwaith o asesu anghenion yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i unigolyn ac amgylchiadau unigol unigolyn. Mae'n debygol y bydd unigolyn am gyflawni mwy nag un canlyniad lles sy'n bersonol iddo. Fodd bynnag, mae pob unigolyn yn wahanol a gall rhai agweddau fod yn bwysicach i rai pobl.

Bydd canlyniadau lles personol pobl yn ymwneud â'r canlyniadau lles cenedlaethol a nodwyd uchod ac yn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Dylai gwasanaethau cymdeithasol ddosbarthu'r canlyniadau personol i'r canlyniad cenedlaethol penodol uchod. Mae enghreifftiau o ganlyniadau lles personol a restrir isod wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r canlyniad lles cenedlaethol mwyaf perthnasol.

Canlyniad lles personol	**Canlyniadau lles cenedlaethol**
Rwyf am fynd i'r capel ddwywaith yr wythnos	Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi
Rwyf am deimlo'n ddiogel gyda'r nos gartref gyda fy ngwraig	Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

3. Mesur lles

Mesur lles yn genedlaethol

Caiff lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt ei fesur yn genedlaethol gan y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, sydd ar gael yn:

http://wales.gov.uk/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy.

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys mesurau canlyniadau cenedlaethol ar gyfer lles y bydd pob gwasanaeth a phobl eu hunain yn cyfrannu atynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiadau ar y mesurau lles cenedlaethol hyn a byddant yn rhoi tystiolaeth ynghylch a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau lles i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

Mae'r diagram isod yn nodi sut y caiff lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt ei fonitro a sut y byddwn yn monitro a yw gwasanaethau yn cyfrannu at sicrhau lles.



Dylai'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol fod yn seiliedig ar atebolrwydd uniongyrchol am ddarparu gwasanaethau. Bydd gwasanaethau yn helpu pobl i sicrhau eu lles. Caiff cyfraniad gwasanaethau ei fesur mewn fframwaith mesur perfformiad.

Mae'r cod ymarfer hwn yn cynnwys y fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r fframwaith perfformiad yn cynnwys safonau ansawdd a mesurau perfformiad:

- Nodir y **safonau ansawdd i awdurdodau lleol** ar dudalen 9 ac maent yn disgrifio gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau lles, mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- Nodir **mesurau perfformiad** ar dudalen 13 mewn perthynas â chyrraedd safonau ansawdd.

Diben y fframwaith mesur perfformiad hwn ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yw:

- galluogi pobl eu hunain i ddeall ansawdd y gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddo a gwneud penderfyniadau hyddysg am eu gofal a'u cymorth;
- ategu gwaith cynllunio strategol awdurdodau lleol, sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu'n effeithiol ac yn effeithlon, annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau a galluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau a gweithgarwch gwella;
- helpu awdurdodau lleol i ddeall yr hyn y maent yn ei wneud yn dda er mwyn cydnabod a rhannu arfer da o fewn awdurdodau lleol a rhyngddynt a'r hyn nad ydynt yn ei wneud cystal, yr hyn y gallent ei wneud yn wahanol a'r hyn sydd angen ei unioni.
- galluogi awdurdodau lleol sy'n darparu gofal a chymorth i gymharu a meincnodi eu perfformiad yn erbyn eraill a dysgu a gwella;
- darparu tystiolaeth o gyfrifoldeb ac atebolrwydd am ddarpariaeth leol i Weinidogion Cymru a llywio'r gwaith o ddatblygu polisi cenedlaethol a phennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer polisi gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru;
- llywio'r gwaith o newid prosesau darparu gwasanaethau er mwyn helpu pobl a theuluoedd i fyw'n annibynnol;
- ategu a llywio'r gyfundrefn rheoleiddio, archwiliadau arolygu a chraffu.

Mesur lles unigol

Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn darparu mesur lles ar lefel genedlaethol. Mae'n **rhaid** mesur lles unigol pobl hefyd. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am les unigol pobl i asesu perfformiad y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Bydd dadansoddi'r cynnydd y mae pobl yn ei wneud tuag at gyflawni eu canlyniadau lles personol yn helpu awdurdodau lleol i fesur newid ac effaith eu gweithgarwch.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 4 (diwallu anghenion) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gofal a chymorth fesur y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyflawni canlyniadau personol. Wrth gydgynhyrchu cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth i ofalwyr) sy'n nodi'r canlyniadau lles personol y mae unigolyn am eu cyflawni, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol weithio gyda phobl er mwyn nodi a monitro cynnydd tuag at gyflawni a chynnal pob canlyniad personol.

Gellir defnyddio gwybodaeth gyfunol am ganlyniadau lles personol at amrywiaeth o ddibenion:

Penderfyniadau strategol **-** Gellir defnyddio gwybodaeth gyfunol am ganlyniadau lles i ddylanwadu ar y prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel strategol mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau.

1. Mae canolbwyntio ar ganlyniadau unigol pobl yn golygu bod yn **rhaid** i awdurdodau lleol edrych y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau ffurfiol a gweithio gyda phobl a chymunedau er mwyn nodi cymorth a chyfleoedd a all helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt a chynllunio ar gyfer eu darparu. Mae hyn yn golygu rhoi pwyslais ar fodelau gwasanaeth newydd ac arloesol er mwyn hyrwyddo lles. Gellir defnyddio gwybodaeth gyfunol am ganlyniadau lles er mwyn llywio'r asesiad o'r boblogaeth sydd angen ei gynnal o dan adran 14 o'r Ddeddf, pan ellir defnyddio'r wybodaeth i nodi'r ffyrdd y mae anghenion yn cael eu diwallu, gan gynnwys defnyddio mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Bydd hyn hefyd yn meithrin dealltwriaeth o'r ffyrdd nad yw anghenion yn cael eu diwallu.

2. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth gyfunol am ganlyniadau lles yn yr asesiad o'r boblogaeth er mwyn nodi'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol a fydd yn cyflawni'r dibenion a nodir yn adran 15(2) o'r Ddeddf, yn eu barn hwy, a lefel y gwasanaethau hynny. Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir, a lefel y gwasanaethau hynny, yn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl. Golyga hyn y bydd y ffordd y darperir gwasanaethau, gan yr awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau eraill, yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

Rheoli perfformiad a chraffu arno - Gellir defnyddio gwybodaeth gyfunol am ganlyniadau lles i ddangos effaith gofal a chymorth drwy fesur yr effaith y mae gwasanaethau penodol a ddarperir yn ei chael ar gynnydd tuag at wella canlyniadau lles personol pobl.

3. Gellir defnyddio gwybodaeth gyfunol am ganlyniadau lles ochr yn ochr â mesurau ansoddol i lywio prosesau rheoli perfformiad, arolygu a rheoleiddio a gwaith craffu. Gellir defnyddio'r rhain i roi darlun manylach o berfformiad, tra'n parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau lles personol.

4. Gellir defnyddio gwaith dadansoddi a monitro data ansoddol a meintiol i werthuso ansawdd gwasanaethau a ddarperir. Gall dadansoddiad ansoddol o'r wybodaeth a gesglir yn ystod sgyrsiau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, â phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt ddarparu tystiolaeth werthfawr ynglŷn â pha agweddau ar wasanaeth a all effeithio ar unigolion.

Gwella gwasanaethau - Gellir defnyddio gwybodaeth gyfunol am ganlyniadau lles i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau a phennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

5. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio data cyfunol i fonitro'r cynnydd y mae pobl yn ei wneud tuag at gyflawni eu canlyniadau lles personol. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio canlyniadau lles cyfunol fel adnodd i ymgorffori cydgynhyrchu mewn arfer pob dydd drwy gynnal sgyrsiau â phobl er mwyn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyflawni canlyniadau lles personol wrth adolygu gofal a chymorth a gwneud penderfyniadau ynghylch pecynnau unigol o ofal a chymorth.

6. Dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid gydweithio er mwyn datblygu'r agenda ganlyniadau a deall sut mae systemau cyfan yn cyfrannu at ganlyniadau unigol

4. Mesur perfformiad

Safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yn cymryd camau i helpu pobl i sicrhau eu lles. Mae'r safonau ansawdd hyn yn disgrifio gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at sicrhau lles. Mae'n **rhaid** i'r gweithgareddau hyn gael eu cynnal er mwyn cyflawni dyletswyddau o dan y Ddeddf a sicrhau lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Mae'r safonau ansawdd hyn yn gysylltiedig â'r diffiniad o les yn y Ddeddf; dangosir y cyswllt hwn gan y map rhwng y canlyniadau lles a'r safonau ansawdd yn **Atodiad A**.

Rhaid i awdurdodau lleol gyrraedd y safonau ansawdd a nodir yn y cod ymarfer hwn.

1. **Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt er mwyn diffinio a chydgynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni.**

Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

a) Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, cyngor achymorth clir a dealladwy ar gael i helpu pobl i fynd ati i reoli eu lles a gwneud penderfyniadau hyddysg.
b) Gweithio gyda phobl, fel partneriaid, i atal yr angen am ofal a chymorth a gyda phartneriaid eraill i drefnu gwasanaethau mewn ffordd sy'n golygu na fydd angen i bobl gael cymorth neu a fydd yn gohirio'r angen iddynt gael gofal a chymorth.
c) Gweithio gyda phobl fel partneriaid er mwyn asesu canlyniadau lles personol yn amserol.
d) Sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn ystyried amgylchiadau unigol unigolyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl anabl.
e) Trin pobl ag urddas a pharch.
f) Sicrhau bod gan bobl reolaeth dros y ffordd y mae eu gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.
g) Trefnu eiriolwr annibynnol er mwyn hwyluso cyfranogiad unigolyn os mai dim ond gyda chymorth eiriolwr y gall yr unigolyn hwnnw oresgyn y rhwystr(au) i gyfranogi'n llawn yn y broses o nodi, adolygiad a diwallu anghenion.
h) Rhoi trefniadau addas ar waith ar gyfer asesu a nodi anghenion a chymhwysedd.
i) Sicrhau bod gan bobl sydd â chynllun gofal a chymorth gyswllt a enwir sy'n rhannu gwybodaeth berthnasol â phartneriaid fel y gellir trosglwyddo gofal a chymorth yn ddidrafferth rhwng gwasanaethau.

j) Sicrhau y caiff effaith gofal a chymorth ar fywydau pobl ei mesur, yn ogystal ag i ba raddau y cyflawnir canlyniadau personol.
k) Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys darparwyr, er mwyn hwyluso ac arwain cynllun amlddisgyblaeth ar gyfer gofal a chymorth.
l) Rhoi trefniadau ar waith er mwyn hysbysu pobl am drefniadau talu am ofal a chodi tâl.

2. **Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt a phartneriaid perthnasol er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl.**

Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

a) Datblygu ar y cyd â phartneriaid a phobl ddulliau o hyrwyddo ffordd iach o fyw a helpu pobl i fyw'n iach.
b) Helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau sy'n eu galluogi i gynnal lefel dda o iechyd meddwl a lles emosiynol.
c) Annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, bod yn weithgar a chael budd o ofal a chymorth rhagweithiol ac ataliol.

3. **Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau priodol i amddiffyn a diogelu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt rhag camdriniaeth ac esgeulustod neu unrhyw fathau eraill o niwed.**

Diffinnir camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

a) Ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu'n rheolaidd i ba raddau y mae canlyniadau lles personol wedi'u cyflawni.
b) Rhoi gofal a chymorth i bobl lle y bo'u hangen i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd er mwyn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod neu amddiffyn plentyn rhag niwed neu risg o niwed.
c) Datblygu trefniadau addas ar gyfer pobl sy'n peryglu eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch pobl eraill er mwyn atal camdriniaeth ac esgeulustod.
d) Helpu pobl i amddiffyn y bobl sy'n bwysig iddynt rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
e) Rheoli risg mewn ffyrdd sy'n grymuso pobl i deimlo eu bod yn rheoli eu bywyd, yn gyson ag anghenion diogelu.
f) Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ac esgeulustod er mwyn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn rhag niwed.

4. **Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fynd ati i annog a helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i ddysgu a datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.**

Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

a) Helpu pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles personol.
b) Helpu pobl i feithrin y sgiliau a chael yr addysg sydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt.
c) Annog pobl i fod yn aelodau gweithgar o'u cymunedau a helpu ei gilydd i ostwng cyfraddau ynysu cymdeithasol.

5. **Mae'n rhaid i awdurdodau lleol helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i ddatblygu'n ddiogel a chynnal cydberthnasau domestig, teuluol a phersonol iach.**

Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

a) Gweithio mewn partneriaeth â phobl i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ac esgeulustod a chymryd camau er mwyn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn rhag niwed.
b) Helpu pobl i gynnal y cydberthnasau sy'n bwysig iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu.
c) Helpu pobl i adnabod cydberthnasau anniogel ac amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
d) Ystyried barn teuluoedd, gofalwyr a chydberthnasau personol eraill pobl wrth asesu eu hanghenion gofal a chymorth, os yw'n briodol.
e) Darparu lleoliadau gofal a chymorth sefydlog a chyson i bobl.

6. **Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt a'u helpu i wella eu lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.**

Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

a) Helpu pobl i gyfranogi fel dinasyddion gweithgar, yn economaidd ac yn gymdeithasol.
b) Helpu pobl i gael gwaith ystyrlon a pharhau i allu ei wneud.
c) Helpu pobl i gael cyngor ariannol a chymorth gyda budd-daliadau a grantiau.
d) Darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef 'Mwy na Geiriau', neu mewn ieithoedd eraill o'u dewis lle y bo angen.
e) Helpu pobl i gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fyw'n annibynnol.

Mesur y safonau ansawdd

Wrth fesur a yw'r safonau ansawdd wedi'u cyflawni, mae'n **rhaid** i bob awdurdod lleol sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i gasglu'r data ar y mesurau perfformiad statudol a nodir yn y cod ymarfer hwn a'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru o fis Mai 2017 ymlaen.

Mae'n **rhaid** i'r data meintiol a nodir yn y cod ymarfer hwn gael eu cyflwyno'n flynyddol ac adlewyrchu blwyddyn ariannol lawn o ddata (bydd y flwyddyn gyntaf yn cwmpasu blwyddyn ariannol mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017). Mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, mae data ansoddol yn ddata rhifiadol a gellir eu newid yn ystadegau.

Mae'n **rhaid** i'r data ansoddol a nodir yn y cod ymarfer hwn gael eu cyflwyno'n flynyddol ac adlewyrchu blwyddyn ariannol o ddata (bydd y flwyddyn gyntaf yn cwmpasu blwyddyn ariannol mis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017).
Mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, bydd data ansoddol yn nodi profiad unigolyn, gan gynnwys ei foddhad â gofal a chymorth

Heb ddeall y gwahaniaeth y mae gofal a chymorth wedi'u gwneud i les pobl, ni ellir llawn ddeall pa mor effeithiol yw gwasanaethau gofal a chymorth na nodi cyfleoedd i'w gwella.

Bydd data ansoddol yn cynnwys gofyn i bobl am eu profiad o wasanaethau cymdeithasol ac a yw hyn wedi cyfrannu at wella eu lles. Mae'n **rhaid** deall y data hyn yng nghyd-destun perfformiad awdurdodau lleol er mwyn gweld yr effaith wirioneddol y mae gwasanaethau yn ei chael ar fywydau pobl.

Mae'n **rhaid** i'r data ansoddol canlynol gael eu casglu'n lleol a'u darparu'n genedlaethol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu gofal a chymorth.

1. Pobl sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref iawn iddynt hwy **[Safon 6]**
2. Pobl sy'n nodi y gallant wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt **[Safon 4]**
3. Pobl sy'n nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel **[Safon 3]**
4. Pobl sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned **[Safon 5]**
5. Pobl sy'n nodi eu bod yn fodlon ar eu rhwydweithiau cymdeithasol **[Safon 4]**
6. Plant a phobl ifanc sy'n nodi eu bod yn fodlon ar yr unigolion y maent yn byw gyda hwy **[Safon 6]**
7. Pobl sy'n nodi eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd ei hangen/angen arnynt **[Safon 1]**
8. Pobl sy'n nodi eu bod wedi cael gofal a chymorth yn eu dewis iaith **[Safon 6]**
9. Pobl sy'n nodi iddynt gael eu trin ag urddas a pharch **[Safon 1]**
10. Oedolion ifanc sy'n nodi iddynt gael cyngor, help a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolyn **[Safon 6]**
11. Pobl â chynllun gofal a chymorth sy'n nodi eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am eu gweithiwr gwasanaethau cymdeithasol enwebedig **[Safon 1]**
12. Pobl sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a'u cymorth **[Safon 1]**
13. Pobl sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant **[Safon 1]**
14. Rhieni sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch gofal a chymorth eu plentyn **[Safon 5]**

15. Gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau â'u rôl

ofalu **[Safon 5]**

16. Gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano **[Safon 5]**
17. Pobl sy'n nodi eu bod yn dewis byw mewn cartrefi gofal preswyl **[Safon 6]**

Wrth gasglu'r data ansoddol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol roi cyfle i bobl gyflwyno adroddiad naratif ar eu profiad, waeth pa ddull a ddewisir i gasglu'r wybodaeth.

Bydd yr adroddiadau hyn yn rhoi darlun llawnach wrth asesu effeithiolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth a byddant yn sicrhau bod profiadau pobl o bob rhan o Gymru yn llywio'r gwaith o wella gwasanaethau yn effeithiol.

Bydd yr adroddiadau hyn yn helpu awdurdodau lleol i nodi meysydd i'w gwella ac arfer da. Ceir rhagor o wybodaeth am gasglu'r data ansoddol yn y canllawiau technegol ategol a gyhoeddir ar wahân i'r cod ymarfer hwn.

Yn ogystal â'r wybodaeth ansoddol, mae'n **rhaid** dychwelyd data meintiol; bydd hyn yn helpu i ailgydbwyso'r ffordd y darperir gofal, gan ganolbwyntio ar helpu pobl i aros yn eu cymuned a phlant i aros gyda'u teuluoedd.

Mae'n **rhaid** i'r data ansoddol canlynol gael eu casglu'n lleol a'u darparu'n genedlaethol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn mewn perthynas â darparu gofal a chymorth.

18. Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol **[Safon 3]**
19. Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd **[Safon 2]**
20. Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi
    a. Ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach **[Safon 2]**
    b. Ac nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach **[Safon 2]**
21. Faint o amser ar gyfartaledd y mae pobl hŷn (65 oed neu drosodd) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal **[Safon 2]**
22. Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl **[Safon 2]**
23. Canran yr oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn **[Safon 1]**
24. Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol **[Safon 1]**
25. Canran y plant a gafodd eu cynorthwyo i barhau i fyw gyda'u teulu **[Safon 5]**
26. Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref ar ôl gadael gofal yn ystod y flwyddyn **[Safon 5]**
27. Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar Gofrestrau Amddiffyn Plant awdurdodau lleol **[Safon 3]**
28. Cyfartaledd yr amser ar gyfer yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn **[Safon 3]**
29. Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 **[Safon 4]**
30. Canran y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestrwyd o fewn tri mis iddynt ddechrau derbyn gofal **[Safon 2]**

31. Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu **[Safon 2]**
32. Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth **[Safon 4]**
33. Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn **[Safon 5]**
34. Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis a 24 mis ar ôl gadael gofal **[Safon 6]**
35. Canran y rhai sy'n gadael gofal a fu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn **[Safon 6]**

Mae'r mesurau ansoddol a'r mesurau meintiol wedi'u mapio i'r canlyniadau lles cenedlaethol a'r safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol, y caiff perfformiad o ran cyflawni'r safonau ansawdd ei asesu yn **Atodiad A** drwy gyfeirio atynt.

Cyhoeddir y canllawiau technegol ar gyfer y mesurau perfformiad statudol hyn ar wahân. Caiff y canllawiau hyn eu hadolygu'n barhaus a'u diweddaru pan fo'n briodol er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i ddarparu'r canllawiau cywir ar gyfer cipio'r mesurau a nodir yn y cod ymarfer hwn. Er mwyn sicrhau bod y mesurau perfformiad yn gymaradwy ac yn gyson, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gydymffurfio â chanllawiau technegol a nodwyd.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol sy'n gosod y broses o gasglu a dadansoddi data ar gontract barhau i fonitro perfformiad y sefydliad(au) a gontractiwyd yn erbyn gofynion eu contract yn barhaus.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad cyhoeddus ar y wybodaeth hon bob blwyddyn fel elfen o adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd cyhoeddi'r wybodaeth hon yn hyrwyddo tryloywder ac yn helpu pobl i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn deall yr effaith y mae gwasanaethau cymdeithasol yn ei chael ar bobl yn eu hardal leol.

Cyflwynir adroddiad cyhoeddus ar y fframwaith perfformiad hwn, fel ystadegau swyddogol y Llywodraeth. Caiff data eu defnyddio i feincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill er mwyn deall perfformiad a gwelliant. Bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon am berfformiad i lywio'r arolygiad ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy gyfundrefnau arolygu statudol.

Atodiad A- Mapio canlyniadau lles, safonau ansawdd ar gyfer awdurdodau lleol a mesurau

Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol		**Y fframwaith mesur perfformiad**	
Diffiniad o les o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	**Caiff fy nghanlyniadau lles eu llywio gan fy hawliau a'm cyfrifoldebau. Pan fyddaf yn cydgynhyrchu fy lles gyda gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid, y canlyniadau rwy'n disgwyl eu cyflawni yw:**	**Safon ar gyfer awdurdodau lleol**	**Mesur y safon ansawdd**
Sicrhau hawliau **Hefyd yn achos oedolion:** **Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd**	Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy lles Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy lles Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof	**1. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt er mwyn diffinio a chydgynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni.** Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol: a) Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth clir a dealladwy ar gael i helpu pobl i fynd ati i reoli eu lles a gwneud penderfyniadau hyddysg. b) Gweithio gyda phobl, fel partneriaid, i atal yr angen am ofal a chymorth a gyda phartneriaid eraill i drefnu gwasanaethau mewn ffordd sy'n golygu na fydd angen i bobl gael cymorth neu a fydd yn gohirio'r angen iddynt gael gofal a chymorth. c) Gweithio gyda phobl fel partneriaid er mwyn asesu canlyniadau lles personol yn amserol. d) Sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn ystyried amgylchiadau unigol unigolyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn ac egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl anabl. e) Trin pobl ag urddas a pharch. f) Sicrhau bod gan bobl reolaeth dros y ffordd y mae eu gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu	• Pobl sy'n nodi eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd ei hangen/angen arnynt • Pobl sy'n nodi iddynt gael eu trin ag urddas a pharch • Pobl sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a'u cymorth • Pobl â chynllun gofal a chymorth sy'n nodi eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am eu gweithiwr gwasanaethau cymdeithasol enwebedig • Pobl sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant • Canran yr oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn

		g) Trefnu eiriolwr annibynnol er mwyn hwyluso cyfranogiad unigolyn os mai dim ond gyda chymorth eiriolwr y gall yr unigolyn hwnnw oresgyn y rhwystr(au) i gyfranogi'n llawn yn y broses o nodi, adolygiad a diwallu anghenion. h) Rhoi trefniadau addas ar waith ar gyfer asesu a nodi anghenion a chymhwysedd. i) Sicrhau bod gan bobl sydd â chynllun gofal a chymorth gyswllt a enwir sy'n rhannu gwybodaeth berthnasol â phartneriaid fel y gellir trosglwyddo gofal a chymorth yn ddidrafferth rhwng gwasanaethau. j) Sicrhau y caiff effaith gofal a chymorth ar fywydau pobl ei mesur, yn ogystal ag i ba raddau y cyflawnir canlyniadau personol. k) Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys darparwyr, er mwyn hwyluso ac arwain cynllun amlddisgyblaeth ar gyfer gofal a chymorth. l) Rhoi trefniadau ar waith er mwyn hysbysu pobl am drefniadau talu am ofal a chodi tâl.	• Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol

lechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol
 	
Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol
	Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach
	Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus
	Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl
		2. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt a phartneriaid perthnasol er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl.
		
		Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol:
		
		a) Datblygu ar y cyd â phartneriaid a phobl ddulliau o hyrwyddo ffordd iach o fyw a helpu pobl i fyw'n iach.
		b) Helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau sy'n eu galluogi i gynnal lefel dda o iechyd meddwl a lles emosiynol.
		c) Annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, bod yn weithgar a chael budd o ofal a chymorth rhagweithiol ac ataliol.
			• Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd
			• Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi
			  ○ Ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach
			  ○ Ac nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach
			• Faint o amser ar gyfartaledd y mae pobl hŷn (65 oed neu drosodd) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal
			• Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl
			• Canran y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestrwyd o fewn tri mis iddynt ddechrau derbyn gofal
			• Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu

Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod	Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon	**3. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau priodol i amddiffyn a diogelu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt rhag camdriniaeth ac esgeulustod neu unrhyw fathau eraill o niwed.** **Diffinnir camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.** Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol: a) Ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu'n rheolaidd i ba raddau y mae canlyniadau lles personol wedi'u cyflawni. b) Rhoi gofal a chymorth i bobl lle y bo'u hangen i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd er mwyn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod neu amddiffyn plentyn rhag niwed neu risg o niwed. c) Datblygu trefniadau addas ar gyfer pobl sy'n peryglu eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch pobl eraill er mwyn atal camdriniaeth ac esgeulustod. d) Helpu pobl i amddiffyn y bobl sy'n bwysig iddynt rhag camdriniaeth ac esgeulustod. e) Rheoli risg mewn ffyrdd sy'n grymuso pobl i deimlo eu bod yn rheoli eu bywyd, yn gyson ag anghenion diogelu. f) Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ac esgeulustod er mwyn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn rhag niwed.	• Pobl sy'n nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel • Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol • Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar Gofrestrau Amddiffyn Plant awdurdodau lleol • Cyfartaledd yr amser ar gyfer yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn

Addysg, hyfforddiant a hamdden **Cyfraniad a wneir i gymdeithas**	Gallaf ddysgu a datblygu i'm llawn botensial Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas	**4. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fynd ati i annog a helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i ddysgu a datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.** Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol: a) Helpu pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles personol. b) Helpu pobl i feithrin y sgiliau a chael yr addysg sydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. c) Annog pobl i fod yn aelodau gweithgar o'u cymunedau a helpu ei gilydd i ostwng cyfraddau ynysu cymdeithasol.	• Pobl sy'n nodi y gallant wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt • Pobl sy'n nodi eu bod yn fodlon ar eu rhwydweithiau cymdeithasol • Canran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau yng nghyfnodau allweddol 2 a 4 • Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth
Cydberthnasau domestig, teuluol a phersonol	Rwy'n perthyn Rwy'n cyfrannu at gydberthnasau diogel ac iach ac yn eu mwynhau	**5. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i ddatblygu'n ddiogel a chynnal cydberthnasau domestig, teuluol a phersonol iach.** Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol: a) Gweithio mewn partneriaeth â phobl i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ac esgeulustod a chymryd camau er mwyn sicrhau y caiff pobl eu hamddiffyn rhag niwed. b) Helpu pobl i gynnal y cydberthnasau sy'n bwysig iddynt, yn gyson ag anghenion diogelu. c) Helpu pobl i adnabod cydberthnasau anniogel ac amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod. d) Ystyried barn teuluoedd, gofalwyr a chydberthnasau personol eraill pobl wrth asesu eu hanghenion gofal a chymorth, os yw'n briodol. e) Darparu lleoliadau gofal a chymorth sefydlog a chyson I bobl.	• Pobl yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned • Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn • Gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i barhau â'u rôl ofalu • Gofalwyr sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano

			• Rhieni sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch gofal a chymorth eu plentyn • Canran y plant a gafodd eu cynorthwyo i barhau i fyw gyda'u teulu Canran y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref ar ôl gadael gofal yn ystod y flwyddyn
Lles cymdeithasol ac economaidd **Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith** **Addasrwydd llety**	Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf Nid wyf yn byw mewn tlodi Caf gymorth i weithio Rwy'n cael yr help sydd ei angen arnaf i dyfu i fyny a bod yn annibynnol Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy lles	**6. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt a'u helpu i wella eu lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.** Er mwyn gwneud hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol wneud y canlynol: a) Helpu pobl i gyfranogi fel dinasyddion gweithgar, yn economaidd ac yn gymdeithasol. b) Helpu pobl i gael gwaith ystyrlon a pharhau i allu ei wneud. c) Helpu pobl i gael cyngor ariannol a chymorth gyda budd-daliadau a grantiau. d) Darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef 'Mwy na Geiriau', neu mewn ieithoedd eraill o'u dewis lle y bo angen. e) Helpu pobl i gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fyw'n annibynnol.	• Pobl sy'n nodi eu bod wedi cael gofal a chymorth yn eu dewis iaith • Pobl sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref iawn iddynt hwy • Pobl sy'n nodi eu bod yn dewis byw mewn cartrefi gofal preswyl • Plant a phobl ifanc sy'n nodi eu bod yn fodlon ar yr unigolion y maent yn byw gyda hwy • Oedolion ifanc sy'n nodi iddynt gael cyngor, help a chefnogaeth i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolyn • Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis a 24 mis ar ôl gadael gofal • Canran y rhai sy'n gadael gofal a fu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn